*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar'**
**Dydd Llun, 5ed Rhagfyr, 2022 am 1.00 pm**

**Dolen gyswllt: Sarah Daniel - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 07385401954)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 1 Rhagfyr 2022. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Derbyn cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 8)**

**3. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD**

Derbyn Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd er gwybodaeth.

**4. GOFAL PRESWYL I BOBL HŶN**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi'r opsiynau a ffefrir i'r Cabinet ar ddarpariaeth llety i bobl hŷn yn y dyfodol ym mhob un o naw cartref gofal preswyl y Cyngor. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori, lle bo'n berthnasol, â'r preswylwyr presennol a'u teuluoedd, staff a rhanddeiliaid eraill, a hynny i alluogi'r Cabinet i ddod i benderfyniadau gwybodus ar yr opsiynau a ffefrir ar gyfer pob cartref.

**(Tudalennau 9 - 46)**

**5. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**6. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhannu datganiad sefyllfa ar ddyledion nad oes modd eu casglu, ac sy'n pennu'r gofyniad i ddileu symiau penodol yn unol â meini prawf adolygu llym.

**(Tudalennau 47 - 62)**

**7. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu hystyried yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Neil Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion